# Adroddiad Blynyddol Grŵp Trawsbleidiol

**Manylion y Grŵp Trawsbleidiol:**

| | |
|---|---|
| Teitl y Grŵp Trawsbleidiol: | Grwp Trawsbleidiol ar Fasnachu mewn Pobl |
| **Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi** | |
| Enw Cadeirydd y Grŵp: | Joyce Watson AS |
| Enwau Aelodau eraill o'r Senedd: | Mike Hedges AS<br>Ann Jones AS<br>Bethan Sayed AS<br>Nick Ramsay AS<br>David Rowlands AS |
| Enw'r Ysgrifennydd a'r sefydliad: | BAWSO |

| | |
|---|---|
| Enwau'r aelodau allanol eraill a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli | • Stephen Chapman, Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth,<br>• Gwendolyn Sterk, Cymorth i Ferched Cymru<br>• Gwyneth Millington, Cyngor ar Bopeth Conwy<br>• Hilary Watson, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru<br>• Jordan Brewer, Cymorth i Ferched Cymru<br>• Katie Davies<br>• Keli Davies<br>• Kim Ann Williamson, Cydlynydd Cymru y Gwasanaeth Sifil<br>• Vivienne Laing, NSPCC<br>• Lydia, SWA<br>• Michelle Pooley, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru<br>• Rakshanda Shahzad, BAWSO<br>• Rhian Connick, Sefydliad y Merched<br>• Sara Kirkpatrick, Cymorth i Ferched Cymru<br>• Sara Thornton<br>• Simon Borja, Cymru Ddiogelach<br>• Dora Szalkay<br>• Carol Wardman, Cynghorydd Esgobion ar gyfer yr Eglwys a Chymdeithas<br>• Y Cynghorydd Yvonne Jardine<br>• Alison Ussery, Hafan o Oleuni |

## Cyfarfodydd eraill y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf

| Cyfarfod 1 | |
|---|---|
| Dyddiad y cyfarfod | 8FED CHWEFROR 2021 |
| Yn bresennol: | • Ann Jones AS<br>• Nitesh Patel (Staff Cymorth)<br>• Edward Bateman<br>• Ioan Bellin, Cynghorydd Arbennig - Helen Mary Jones AS<br>• Stephen Chapman, Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth,<br>• Gwendolyn Sterk, Cymorth i Ferched Cymru<br>• Gwyneth Millington, Cyngor ar Bopeth Conwy<br>• Hilary Watson, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru,<br>• Mark Isherwood AS<br>• Jordan Brewer, Cymorth i Ferched Cymru<br>• Katie Davies<br>• Keli Davies<br>• Kim Ann Williamson, Cydlynydd Cymru y Gwasanaeth Sifil<br>• Vivienne Laing, NSPCC<br>• Lydia, SWA<br>• Michelle Pooley, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru<br>• Rakshanda Shahzad, BAWSO<br>• Rhian Connick, Sefydliad y Merched<br>• Ryland Doyle (Staff Cymorth)<br>• Sara Kirkpatrick, Cymorth i Ferched Cymru<br>• Sara Thornton<br>• Simon Borja, Cymru Ddiogelach<br>• Dora Szalkay<br>• Carol Wardman, Cynghorydd yr Esgobion ar gyfer yr Eglwys a Chymdeithas<br>• Y Cynghorydd Yvonne Jardine<br>• Alison Ussery, Hafan o Oleuni |

| | |
|---|---|
| Crynodeb o’r materion a drafodwyd: | Cadeiriodd Ann Jones MS (AJAS) y cyfarfod ar ran Joyce Watson AS trwy MS Teams.<br><br>Croesawodd AJAS bawb i gyd-gyfarfod agoriadol y Grŵp Trawsbleidiol ar Fasnachu mewn Pobl, a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant, a diolchodd i bawb a oedd yn bresennol.<br><br>Trefnwyd y cyfarfod hwn ar y cyd gan swyddfeydd Joyce Watson a Mark Isherwood.<br><br>Dywedodd AJAS i Joyce Watson sefydlu’r Grŵp Trawsbleidiol ar Fasnachu mewn Pobl yn 2009 a’i bod wedi sefyll fel Cadeirydd y grŵp ers hynny.<br><br>Aeth AJAS drwy'r camau gweithdrefnol ar gyfer y CCB ar gyfer ethol y Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth.<br>Ail-etholwyd Joyce Watson AS yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Fasnachu mewn Pobl, a eiliwyd gan Mike Hedges AS, ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau. Dewiswyd Bawso fel Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Fasnachu mewn Pobl, ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau.<br><br>Cyflwynodd AJAS y Comisiynydd Atal Caethwasiaeth Annibynnol, y Fonesig Sara Thornton DBE QPM. Dywedodd AJAS y penodwyd Sara yn Gomisiynydd Atal Caethwasiaeth y DU yn 2019 a’i bod yn gyfrifol am annog arfer da wrth atal a chanfod caethwasiaeth fodern ac adnabod dioddefwyr. Cyn dod yn Gomisiynydd, Sara oedd Cadeirydd cyntaf Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu rhwng 2015 a 2019 ac mae'n gyn-Brif Gwnstabl Heddlu Dyffryn Tafwys. Gwnaethpwyd Sara yn Fonesig Gadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig yn 2019. Cafodd ei chydnabod gyda Gwobr Cyflawniad Gyrfa gan Ymddiriedolwyr Awdurdod Hyfforddi'r Heddlu, a Medal Syr Robert Peel am Arweinyddiaeth Eithriadol mewn Plismona.<br><br>Rhoddodd y Comisiynydd Atal Caethwasiaeth Annibynnol, y Fonesig Sara Thornton DBE QPM, gyflwyniad i'r Grŵp Trawsbleidiol.<br><br>Trafododd Sara bedwar maes yn ei chyflwyniad. Roeddent yn ymwneud â rôl y Comisiynydd, effaith COVID ar gaethwasiaeth fodern, goblygiad ymadael â'r UE ar fewnfudo ac uchafbwyntiau gwaith y Comisiynydd. |

| | |
|---|---|
| | Cyflwynodd AJAS y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth, Stephen Chapman, a dywedodd mai Cymru yw'r unig Lywodraeth yn y DU i fod â Chydgysylltydd Atal Caethwasiaeth. Mae Stephen wedi gweithio'n agos gyda'r Grŵp Trawsbleidiol ac Aelodau ers blynyddoedd lawer. Mae wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaf yn rheolaidd am ei rôl yn atal caethwasiaeth yng Nghymru ac am ei waith yn cydlynu cymorth i oroeswyr. Mae Stephen yn aelod o Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru, gan gwrdd â sefydliadau eraill i fynd i'r afael â chaethwasiaeth yng Nghymru. Mae Stephen hefyd yn llysgennad ar gyfer yr Ymgyrch Rhuban Gwyn sy'n annog dynion i gymryd safiad yn erbyn trais yn erbyn menywod.<br><br>Rhoddodd y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth, Stephen Chapman, a Kim Ann Williamson MBE gyflwyniad i'r Grŵp Trawsbleidiol.<br><br>Rhoddodd Stephen gyflwyniad ar Brosiect Caethwasiaeth Fodern COVID-19, y wybodaeth ddiweddaraf ar y fecanwaith atgyfeirio cenedlaethol (MAC), y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynllun gwarcheidiaeth masnachu plant annibynnol, tryloywder mewn cadwyni cyflenwi a themâu newydd sy'n dod i'r amlwg.<br><br>Rhoddodd Kim Ann Williamson MBE gyflwyniad ar Brosiect Caethwasiaeth Fodern COVID-19.<br><br>Parhaodd Stephen Chapman â'i gyflwyniad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y MAC, y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gwarcheidiaeth masnachu plant annibynnol, tryloywder mewn cadwyni cyflenwi a themâu newydd sy'n dod i'r amlwg.<br><br>Rhoddodd Rakhshanda Shahzad, Pennaeth Gwasanaethau Caethwasiaeth Fodern (Bawso), gyflwyniad i'r Grŵp Trawsbleidiol.<br><br>Rhoddodd Rakhshanda grynodeb o'r gwasanaethau a ddarperir gan Bawso a'r cymorth i dioddefwyr masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern. Rhoddodd Rakhshanda wybodaeth am y prosiectau y mae Bawso yn eu rhedeg ledled Cymru.<br><br>Siaradodd Mark Isherwood MS (MIAS) fel Cyd-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol a dywedodd iddo ofyn am y cyfarfod ar ôl i bryderon gael eu codi ynghylch masnachu mewn pobl yng ngogledd Cymru. Gwahoddodd MIAS Alison Ussery a Gwyneth Millington i siarad.<br><br>Disgrifiodd Alison Ussery y gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r Eglwys yng Nghymru a Chyngor ar Bopeth Conwy. Dywedodd Alison Ussery fod llawer o sefydliadau a phobl yn chwilio am wybodaeth ar sut y gallent fod yn rhan o'r agenda hon ac helpu. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd Alison Ussery fod diffyg gwybodaeth am oedran, cenedligrwydd a'r nifer o ddioddefwyr. Roedd Cyngor ar Bopeth Conwy yn darparu'r wybodaeth hon nawr. Dywedodd Alison Ussery mai'r cwestiwn oedd: a allai gael gwybodaeth ar sut y gall pobl helpu ar yr agenda hon a chael mynediad at adnoddau? Ymatebodd Sara Thornton ac awgrymu y gellid rhannu gwybodaeth am sut y gall pobl helpu, ond ni fyddai gwybodaeth am dai diogel a gwybodaeth sensitif arall yn cael ei rhannu.<br><br>Dywedodd Stephen Chapman ei fod wedi siarad â'r Uned Caethwasiaeth Fodern a phwysleisio bod sefydliadau fel Byddin yr Iachawdwriaeth angen gwybodaeth er mwyn helpu dioddefwyr, ond ni chafwyd y cymorth.<br><br>Dywedodd Rakhshanda y gallai Bawso ond rhoi gwybodaeth drwy fynd drwy broses datgelu data.<br><br>Siaradodd Gwendolyn Sterk am y MAC a'r pryderon a godwyd ynghylch y system a'r arian cyhoeddus sydd ar gael.<br><br>Ymatebodd y Fonesig Sara Thornton i Gwendolyn Sterk.<br><br>Gofynnodd MIAS i'r aelodau a oedd unrhyw sylwadau terfynol yr hoffai'r rhai a oedd yn bresennol eu gwneud.<br><br>Byddai dyddiad y cyfarfod nesaf a'r pwyntiau gweithredu yn cael eu cadarnhau yn y dyfodol a thrwy e-bost ar gyfer y ddau Grŵp Trawsbleidiol. |

| | |
|---|---|
| | |
| | |

| Cyfarfod 2 | |
|---|---|
| Dyddiad y cyfarfod | |
| Yn bresennol: | |

| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r materion a drafodwyd: | |
| | |
| | |

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod 3** | |
| Dyddiad y cyfarfod | |
| Yn bresennol: | |
| Crynodeb o'r materion a drafodwyd: | |

| |
|---|
| |
| |

## Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.

[Rhowch enw'r lobïwr/sefydliad/elusennau fel a ganlyn, e.e.]

| Enw'r mudiad: | Enw'r grŵp: |
|---|---|
| | |
| Enw'r mudiad: | Enw'r grŵp: |
| | |

## Datganiad Ariannol Blynyddol:

| | |
|---|---|
| Teitl y Grŵp Trawsbleidiol: | Grŵp Trawsbleidiol ar Fasnachu mewn Pobl |
| **Dyddiad:** | 08/02/21 |
| **Enw'r Cadeirydd:** | Joyce Watson AS |
| **Enw'r Ysgrifennydd a'r sefydliad:** | BAWSO |

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp** | Dim. | £0.00 |
| **Costau'r holl nwyddau** | Dim nwyddau wedi'u prynu | £0.00 |
| **Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol** | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |
| **Unrhyw gymorth ariannol neu gymorth arall.** | Ni chafwyd cymorth ariannol. | £0.00 |
| Gwasanaethau a ddarperir i'r Grŵp, er enghraifft lletygarwch<br><br>Talwyd am yr holl letygarwch am [cynnwys enw'r grŵp / sefydliad]. | | |
| **Dyddiad** | **Enw'r darparwr a disgrifiad ohono** | **Costau** |
| | | £0.00 |
| | **Cyfanswm costau** | £0.00 |